# Nodiadau o Gyfarfod a gynhaliwyd rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – 30 Ionawr 2013, 5.30pm yn Ysbyty Gwynedd

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mary Burrows | Cynghorydd Dyfed Edwards |
| Geoff Lang | Cynghorydd R H Wyn Williams |
| Grace Lewis-Parry | Harry Thomas |
| Andrew Jones | D P Lewis |
| | Morwena Edwards |

## 1.0 Cefndir

Agorodd Cynghorydd DE y drafodaeth gan ddiolch i bawb am y cyfle i gyfarfod ar fyr rybudd. Cyfeiriodd at y Rhybudd o Gynnig dderbyniwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr oedd yn gofyn **"… Bod y Cyngor yn cael cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod yr oblygiadau ariannol, disgwyliadau ar y gwasanaeth a bod dim newid yn cymryd lle hyd nes bod trafodaethau mwy aeddfed wedi digwydd".** Gofynnodd y Cyngor hefyd i'r Cyngor Iechyd Cymuned i gyfeirio'r matter i'r Gweinidog Iechyd Lesley Griffiths i'w ystyried.

## 2.0 Trafodaethau Cyffredinol

2.1 Trafodwyd amryw o faterion mewn perthynas â'r penderfyniadau gan BIPBC:-

a) Gofal Estynedig - Mynegodd y Cyngor bryderon ynglŷn ehangu defnydd bwriedig y model gofal estynedig a thra'n cefnogi'r bwriad o gadw unigolion allan o ysbytai roedd pryder ynglŷn â'r galw cynyddol bosib ar wasanaethau cymunedol gan y Cyngor.

Cyflwynodd GL grynodeb o'r profiadau o fewn y peilot seiliwyd yng Ngogledd Sir Ddinbych ac yn fwy diweddar yn Ynys Môn (gan nodi fod y ddau fodel yn gwahaniaethu). Nodwyd hefyd fod gwaith datblygol yn cymryd lle yn Ne Meirionnydd trwy'r tîm ardal.

Mae 'gofal estynedig' yn golygu:-

- sefydlu tîm o weithwyr clinigol a chefnogol (gan gynnwys gweithwyr gofal).
- bydd y 'tîm' yn cefnogi unigolyn yn y gymuned o'r amser lle mae'r angen yn cael ei adnabod i'r amser rhyddhau.
- wrth nesáu at gael ei ryddhau bydd Asesiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymryd lle i benderfynu ar anghenion i'r dyfodol.

Nodwyd for Prifysgol Bangor wedi gwerthuso'r peilot Sir Ddinbych gan adrodd yn ôl yn bositif. Mewn ymateb i gwestiwn dywedwyd mai'r prif yrwyr ar gyfer gofal estynedig oedd:-

- gofal mwy priodol
- gwell sefyllfa i ddelio a demograffeg i'r dyfodol
- mwy priodol ar gyfer oedran arbennig h.y. gofal lliniarol a cronig
- nid o anghenraid yn rhoi arbedion ariannol ond yn gallu gyrru effeithlonrwydd.

b) Gofal Dementia - cyfeiriwyd at y penderfyniad i gau'n barhaol Ward Hafan, Bryn Beryl ac Uned Meirion, Dolgellau. Mynegwyd pryder penodol ynglŷn â gofal dementia yn Ne Gwynedd lle mae ond nifer cyfyngedig o wlâu preswyl a diffyg gofal nyrsio.

Roedd BIPBC yn gwerthfawrogi'r sefyllfa ond nid oeddent eto mewn sefyllfa i adnabod y datrysiad yn llwyr. Awgrymwyd fod angen gwaith pellach mewn perthynas â'r union nifer a olygir; sut bydd gofal estynedig yn cyfrannu; os gellir defnyddio sgiliau'r nyrsys iechyd meddwl ac a oes lle ar gyfer y defnydd cyfunol o ysbytai cymunedol a lleoliadau gofal preswyl.

Datganwyd nad oedd cleifion oedd mewn am ysbaid yn atebiad ond fod cynyddu gofal dydd wedi ei dderbyn yn dda yn lleol.

Adnabuwyd y bwlch rhwng anghenion cartref ac arbenigol a bod cyfle i weithio ar y cyd i ddatblygu ymhellach model gofal a all gynnwys Timau Cymunedol Integredig.

c) Trafnidiaeth – Trwy'r godi'r mater yma mynegodd y Cyngor bryderon sut gallai cleifion gael mynediad at wasanaethau oedd yn cael ei symud. Roedd hyn hefyd yng nghyswllt newidiadau arwyddocaol mewn cyllido trafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys lleihad mewn cymhorthdal i weithredwyr bysus.

Datganodd BIPBC yn bendant nad oedd ganddynt gyfrifoldeb statudol i drefnu trafnidiaeth i gleifion oni bai fod eu hangen fel eu bod yn cwrs a holl feini prawf cymhwyster ar gyfer trafnidiaeth ysbyty. Wrth ddweud hyn fodd bynnag roeddent yn gwerthfawrogi'r anawsterau wyneba cleifion ac roeddent yn barod i ddarparu rhywfaint o gefnogaeth i gynlluniau trafnidiaeth gymunedol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio monitro'r berthynas rhwng y newidiadau arfaethedig a'r trefniadau trafnidiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd a fod perthynas gwaith yn ei le gyda rheolwyr cynllunio trafnidiaeth yr awdurdod lleol.

ch) Ysbyty Cymunedol Blaenau Ffestiniog - Y penderfyniadau wnaed mewn perthynas ag Ysbyty Cymunedol Blaenau Ffestiniog oedd:-

- symud gwlâu cleifion i Ysbyty Alltwen
- defnyddio gofal estynedig lle bo'n briodol i ddarparu gofal yn y cartrefi
- cau'r uned mân anafiadau a'r uned pelydr-x
- Meddygon Teulu i barhau i ddarparu gwasanaethau mân anafiadau yn lleol.

Cadarnhaodd BIPBC eu bwriad i weithredu'r penderfyniad wnaed a gosodwyd yr amserlen fwriedig ym mhapurau'r Bwrdd a gyhoeddwyd yn Ionawr. Nodwyd fod gan y Cyngor Iechyd Cymuned hyd at 1 Mawrth i ymateb i'r penderfyniadau a gyhoeddwyd. Nododd y Cyngor fod y penderfyniad a basiwyd yn gofyn i unrhyw newid beidio cael ei weithredu hyd at fydd trafodaethau pellach wedi cymryd lle.

Yn y drafodaeth gyffredinol a ddilynwyd ystyriwyd:-

- y potensial am gyfleuster Iechyd a Gofal Cymdeithasol fyddai'n dod â gwasanaethau ynghyd ar un safle.
- potensial ar gyfer gwasanaethau/triniaethau ychwanegol a all gael eu darparu.
- prun ai oedd gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r swm o £4m rhaglen gyfalaf ar gael i ddatblygu'r safle – nodwyd ei fod o fewn y rhaglen gyfalaf ond yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes gan Lywodraeth Cymru.

Cynigiodd y Cyngor fod angen rhoi ymrwymiad cadarn mewn ffurf "Datganiad o Fwriad" i gadarnhau ei fwriadau ynglŷn â chynnal a datblygu gyda'r Cyngor ac asiantaethau gwasanaethau'n lleol.

(d) <u>Gwella Iechyd</u> - Cyfeiriodd y Cyngor i'r nod gor-redol i dargedu'r agenda ataliol gan weld cyfle i fwy o gydweithio rhwng y Cyngor a BIPBC ynglŷn â hyn. Nodwyd fod amryw o wasanaethau'r Cyngor yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r agenda gwella iechyd.

(dd) <u>Ysbyty Tywyn</u> – Roedd BIPBC yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r achos busnes oeddent wedi ei gyflwyno mewn perthynas â datblygiad yr ysbyty.

Croesawyd y bwriad i sefydlu Bwrdd Cynllunio ar y Cyd gyda BI Hywel Dda BILl Powys.

(e) <u>Gofal newydd-anedig</u> – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngor ynglŷn â'r bwriadau gofal newydd-anedig ailgadarnhaodd BIPBC wybodaeth y bydd 95% o ofal newydd-anedig yn parhau i gael ei ddarparu o fewn Gogledd Cymru.

Roedd sefydlu uned newydd-anedig gofal dwys i ofalu am nifer fechan o fabanod (tua 36 achos yn flynyddol ar draws Gogledd Cymru) gydag anghenion llawer mwy cymhleth ac arbenigol yn waharddol yn nhermau'r nifer o ymgynghorwyr yn gyfrifol am newydd-anedig oedd ei angen (x6) lle'r oedd prinder cenedlaethol o ymgynghorwyr.

## 3.0 <u>Sylwadau Terfynol</u>

3.1 Cytunwyd fod y drafodaeth wedi bod yn werthfawr i sicrhau dealltwriaeth mwy o fwriadau BIPBC a phryderon y Cyngor. Cytunwyd fod cyfle i weithio ar y cyd ar lefelau gwahanol i ddatblygu gwasanaethau i'r dyfodol. Roedd hyn mewn perthynas penodol i:-

a) cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol ym Mlaenau Ffestiniog

b) mwy o integreiddio yn nhermau'r model gofal estynedig

c) gofal dementia mewn lleoliad cymunedol yn ogystal â model gofal posib ysbyty cymunedol/gofal preswyl.

3.2 Cytunwyd y dylai cyfarfod ychwanegol gymryd lle i symud ymlaen y cyfleuon ar gyfer gweithio ar y cyd.

3.3 Cytunwyd y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn tynnu ar ei gilydd "Ddatganiad o Fwriad" mewn perthynas â datblygu gwasanaethau ym Mlaenau Ffestiniog ac y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i egluro'r sefyllfa ynglŷn â'r swm cyfalaf o £4m.